



Gwneud baromedr

Trosolwg

Oes gennych chi thermomedr yn eich tŷ? Beth am faromedr? Yn y gweithgaredd hwn byddwch yn darganfod beth yw baromedr a pham ei fod yn bwysig wrth arsylwi a rhagweld y tywydd. Byddwch chi hefyd yn cael cyfle i wneud eich baromedr eich hun i'w ddefnyddio gartref neu yn yr ysgol.



Amser gofynno


60 munud



Deunyddiau gofynnol

- Jar jam gwag
- Balŵn
- Band rwber
- Tâp gludiog
- Gwelltyn yfed
- Sisyrnau
- Glud
- Pinnau
- Cerdyn
- Blu tac





Camau'r gweithgaredd

01 Beth yw baromedra beth mae'n ei fesur?

Offeryn a ddefnyddir i fesur y pwysedd aer o'n cwmpas yw Baromedr. Mae pwysedd yn bwysig oherwydd gall ddweud wrthym pa fath o dywydd i'w ddisgwyl; pan fydd y pwysedd yn uchel, fel rheol gallwn ni ddisgwyl awyr glir a gwyntoedd ysgafn, pan fydd y pwysedd yn isel gallwn ni ddisgwyl tywydd gwlyb a gwyntog fel rheol. Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth am bwysedd yma yn y [fideo](#) hwn.

Mae'n bwysig iawn i rai busnesau, er enghraifft mae angen i awyrennau wybod yn union beth yw'r pwysedd fel eu bod nhw'n gwybod ar ba uchder i hedfan, gan nad ydyn nhw'n mesur uchder uwchben yr arwyneb mewn metrau neu filltiroedd, maen nhw'n defnyddio lefelau pwysedd. Mae'r [ddolen](#) hon yn esbonio pa mor bwysig yw gwybod beth mae'r pwysedd yn ei wneud i Feteorolegwyr a chwsmeriaid y Swyddfa Dywydd.

Efallai eich bod wedi gweld baromedr hen ffasiwn mewn amgueddfa neu efallai fod gan rywun yn eich teulu un?

Gofynnwch i'ch teulu a ydyn nhw wedi defnyddio neu weld baromedr o'r blaen.

Mae baromedrau hŷn yn sensitif iawn ac mae angen gofalu amdanynt i sicrhau eu bod yn dal yn gywir, felly'r rhan fwyaf o'r amser nawr rydyn ni'n defnyddio baromedrau digidol gan eu bod yn fwy dibynadwy.

Rydych chi'n mynd i wneud eich un eich hun!

02 Gwneud baromedr

Dilynwch y cyfarwyddiadau isod i ddechrau gwneud eich Baromedr eich hun:

- Cymerwch falŵn a thorri gwddf y balŵn i ffwrdd.
- Cymerwch ran waelod y balŵn a'i ymestyn dros ymyl y jar jam. Efallai y bydd angen help ar blant iau gyda hyn. Sicrhewch ei fod mor dynn â phosib fel bod y balŵn yn wastad.
- Sicrhewch y balŵn dros y jar gyda band elastig neu dâp.
- Cewch welltyn a'i dorri ar ongl i greu pig.
- Tâpiwch neu ludiwch y gwelltyn i ran ganol y balŵn sydd wedi'i ymestyn dros y jar.
- Cewch ddarn o gerdyn a'i gysylltu â'r wal. Rhowch y jar wrth ei ymyl fel bod y gwelltyn yn agos at y wal ac yn anelu at ran ganol y papur.
- Marciwch lle mae'r gwelltyn yn anelu at y papur.
- Gwnewch farc 1cm uwchben (labelwch yn uchel a rhowch heulwen) ac 1cm o dan (labelwch yn isel a thynnwch lun o ddiferion glaw) y marc canol rydych chi newydd ei dynnu.



- Cadwch y Baromedr yn yr un lle, i ffwrdd o olau haul a rheiddiaduronos yn bosibl, rhywle lle mae'r tymheredd yn weddol gyson.

Awgrymiadau

Bydd torri pen y gwelltyn i wneud pig yn ei wneud yn haws gweld lle mae'r gwelltyn yn pwyntiog.

03 Cofnodi ac arsylwi

SCamwch yn ôl ac arsylwch eich Baromedr dros gyfnod o amser.

Dyma rai cwestiynau isod i feddwl amdanynt wrth i chi arsylwi:

- Ydych chi'n sylwi ar unrhyw beth yn digwydd?
- A yw'n symud llawer neu ychydig?
- Allwch chi ddweud pryd roedd hi'n bwrw glaw ac yn heulog?
- Pam mae hyn yn digwydd?
- Cofnodwch yr hyn mae'r tywydd yn ei wneud pan yw'n symud, a yw'n bwrw glaw? A yw'n sych?

Beth sy'n digwydd?


Mae baromedr yn dangos y gwahaniaeth cymharol mewn pwysedd aer y tu allan i'r baromedr o'i gymharu â'r tu mewn. Os ydych chi'n gweld rhywbeth yn digwydd, mae hyn oherwydd bod yr aer o'n cwmpas yn cynnwys gronynnau bach o'r enw moleciwlau. Mae'r aer y tu mewn i'r jar wedi cael ei ddal gan y balw'n felly ni all unrhyw foleciwlau ddianc ond maen nhw'n pwyso yn erbyn y balw'n ac ochrau'r jar. Mae aer y tu allan i'r jar hefyd, mae'r aer hwn hefyd yn cynnwys moleciwlau sy'n gwrthio yn erbyn y balw'n o'r ochr arall.

Os yw pwysedd yr aer y tu allan i'r jar yn uwch na'r tu mewn (pwysedd uchel), bydd yn gwrthio i lawr ar y balw'n a bydd y balw'n yn suddo a bydd y gwelltyn yn pwyntio tuag i fyny. Os yw'r pwysedd aer y tu allan i'r jar yn is na'r tu mewn (pwysedd isel), bydd y balw'n yn chwyddo tuag allan a bydd y gwelltyn yn dechrau pwyntio tuag i lawr.

Bydd y gwelltyn yn symud i fyny neu i lawr ychydig cyn i'r tywydd newid gan y gall newid yn y tywydd gyd-fynd â newid yn y pwysedd atmosfferig fel rheol.

Pwysedd a Thymhorau

Mae pwysedd uchel yn yr haf yn aml yn dod â thywydd braf, cynnes. Gall arwain at ddiwrnodau heulog cynnes hir a chyfnodau sych hirfaith ond mae pwysedd uchel yn y gaeaf yn aml yn arwain at ddiwrnodau oer, sych, gyda gwyntoedd ysgafn. Gall rheu difrifol yn ystod y nos ddatblygu os yw'r awyr yn glir.



Gall pwysedd isel yn yr haf arwain at gyfnodau o lawiad hir, sydd mewn sefyllfaoedd eithafol yn arwain at lifogydd. Fodd bynnag, mae'n dal yn bosibl cael tywydd braf rhwng ffryntiau tywydd, yn arbennig os yw'r cymylau yn clirio ac mae'r Haul yn dod allan. Mae pwysedd isel yn y gaeaf yn aml yn arwydd o amodau stormus neu aeafol. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld [yma](#).

Awgrym

Meddyliwch sut y gallech chi gofnodi'ch canlyniadau - a allech chi wneud graff bob dydd i gofnodi ble mae'r gwelltyn?

04 eth allwch chi ei wneud nesaf?

Os hoffech chi barhau i arbrofi gyda'ch Baromedr, meddyliwch am ateb y cwestiynau isod:

- Pa mor dda y mae eich baromedr yn gweithio?
- Pa newidiadau i'r dyluniad fyddai'n ei wneud yn fwy cywir?
- Rhowch gynnig ar ddefnyddio jariau o wahanol feintiau, jar blastig, jar fetel, gwelltyn byrrach neu hirach.
- Sut y gallai tymheredd newidiol effeithio ar gywirdeb y baromedr?

Awgrym

I ddod o hyd i'r pwysedd yn eich lleoliad, ewch io www.metoffice.gov.uk a theipiwch eich cod post. Dewch o hyd i'r tab "24awr diwethaf" a bydd hyn yn mynd â chi i'r pwysedd diweddaraf a gofnodwyd yn eich lleoliad. Os hoffech ddysgu rhagor am gofnodi pwysedd, gallwch ddod o hyd i ragor o ddeunydd darlle [yma](#).